

19/06/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Fel y gwyddoch, rydym yn ail agor i ddisgyblion ar ddydd Llun y 29ain o Fehefin. Byddwn hefyd yn parhau i gynnig y gwasanaeth gwarchod plant argyfwng, ond bydd y gwasanaeth ychydig yn wahanol i'r hyn sydd wedi ei sefydlu. **Dyma rai o'r newidiadau i'r gwasanaeth gwarchod plant argyfwng o ddydd Llun y 29ain o Fehefin:**

- Bydd amserau'r gwarchod yn newid - byddwn yn **rhedeg y gwasanaeth gwarchod argyfwng rhwng 08:30 a 15:30.**
- Bydd y gwarchod **ar gael i ddisgyblion bl 7-9** (disgyblion hyd at 14 mlwydd oed), yn unol â chanllawiau Awdurdod Lleol Abertawe (gweler [gwefan Abertawe am fanylion](#)). Serch hynny, byddwn yn barod i drafod anghenion penodol disgyblion unigol gyda rhieni.
- Bydd pob disgybl ar y safle yn dilyn yr un **amserlen o flociau dysgu**, ble fyddant yn **gweithio'n annibynnol** i gwblhau gwaith ysgol unigol, gydag egwyl a chinio wedi'u darwahanu.
- Mae disgwyl i bob disgybl ddod â chinio ei hun i'r ysgol - **ni fydd cinio yn cael ei ddarparu gan ffreutur yr ysgol.**
- Bydd disgyblion y gwasanaeth gwarchod argyfwng yn cael eu gosod mewn grwpiau dysgu, yn debyg i'r trefniadau gyda'r blynyddoedd gwahanol (fesul blwyddyn, cymaint â phosib).
- Ni fydd caniatâd i ddisgyblion fynychu'r diwrnodau blwyddyn a'r gwasanaeth gwarchod plant argyfwng ar yr un diwrnod.
- Ni fyddwn yn disgwyl i'r disgyblion yn y gwasanaeth gwarchod plant argyfwng i wisgo gwisg ysgol arferol. Sicrhewch eu bod mewn **dillad glan pob dydd** yn maent yn mynychu er mwyn lleihau'r siawns o ledaenu.

Bydd disgwyl i bob riant sydd yn gwneud cais am wasanaeth gwarchod plant argyfwng o'r 29ain o Fehefin ymlaen (yn cynnwys y rhai sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth am gyfnodau hir cyn nawr):

1. Rhannu **llythyr 'gweithiwr allweddol'** ar gyfer pob riant (lle'n berthnasol), gyda'r ysgol (sydd fel arfer yn cael ei ddsodbarthu gan reolwr llinell). Dylid ei **ddanfôn at y ddau gyfeiriad e-bost canlynol:** LeonardE18@hwbcymru.net; BowenJ129@hwbcymru.net.
2. Llenwi **taflen manylion personol**, os nad ydych wedi ei wneud yn barod. Gweler ein safwe am gopi, neu cysylltwch â ni ar yr e-byst uchod.
3. E-bostio'r cyfeiriadu uchod gyda'ch gofynion ar gyfer gwarchod erbyn 12:00 ar y dydd lau cyn yr wythnos mae angen gwarchod argyfwng arnoch chi, er mwyn ein **caniatâu i allu cynllunio ein staffio.**
4. **Gollwng a chasglu** eich plant yn unol â'r trefniadau ar gyfer 'ail agor' i flynyddoedd gwahanol (ni fydd caniatâd i rieni yrru ar y brif safle).
5. Cwblhau'r **holiadur gwarchod argyfwng newydd yma**, cyn bod eich plentyn yn mynychu'r gwarchod plant argyfwng newydd ar y 29ain o Fehefin.

Gobeithio bod y trefniadau newydd yn glir – os oes unrhyw gwestiwn gennych, peidiwch ag oedi cyn cysylltu i drafod ymhellach.

Cofion cynnes,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: vgg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur

